CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS

WILDFOX RESORTS NEWSLETTER #1
CYLCHLYTHYR CYRCHFAN WILDFOX #1

Welcome to our first Wildfox newsletter - we have been busy working behind the scenes and are excited to share our progress. In our first edition, you'll hear about:

- the executive team
- planning update
- our progress on site
- our work in the environment
- timeline of next steps

Croeso i'n cylchlythyr Wildfox cyntaf – rydyn ni wedi bod yn gweithio'n brysur iawn y tu ôl i'r llenni, ac mae'n gyffrous gallu rhannu ein cynnydd gyda chi. Yn ein rhifyn cyntaf, cewch glywed am:

- Y tîm gweithredol
- Diweddariad cynllunio
- Ein cynnydd ar y safle
- Ein gwaith yn yr amgylchedd
- Amserlen ein camau nesaf

Executive Team

Lord David Triesman
Chairman

Martin Bellamy
Chief Executive Officer

Benjamin Lloyd
Director of Group Strategy

Claire Pearce
Director of Sustainability & Economic Development

Our passionate team bring a wealth of experience from both the private and public sectors with a singular vision – for Wildfox Resorts to redefine adventure. Our Vision is to be the number one destination for adventure escape.

Wildfox Resorts will create the first of a new generation of adventure resorts in the UK – lifestyle resorts that create wonderful experiences and memories for our customers.

Wildfox Resorts as a company is born and based in Wales with resort 1 being located in the Afan Valley. We are intent on putting people, planet and pleasure at the heart of the resort, with technology and innovation helping us deliver personalised and sustainable guest services.

In addition to the executive team, Wildfox Resorts has been building a top team of consultants and advisors to enable the delivery of a truly transformational tourism destination. Keep a look out for our announcements.

Y Tîm Gweithredol

Arglwydd David Triesman

Cadeirydd

Martin Bellamy

Prif Swyddog Gweithredol

Benjamin Lloyd

Cyfarwyddwr Strategaeth y Grŵp

Claire Pearce

Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd a Datblygu Economaidd

Mae ein tîm angerddol yn dod â chyfoeth o brofiad yn eu sgil o'r sectorau preifat a chyhoeddus, a'r cyfan dan weledigaeth neilltuol – gweld Cyrchfan Wildfox yn ailddiffinio antur. Ein Gweledigaeth yw mai ni fydd cyrchfan rhif un ar gyfer dianc i gael antur.

Bydd Cyrchfan Wildfox yn creu'r cyntaf o genhedlaeth newydd o gyrchfannau antur yn y Deyrnas Unedig – cyrchfannau ffordd-o-fyw sy'n creu profiadau ac atgofion rhagorol i'n cwsmeriaid.

Ganwyd cwmni Cyrchfan Wildfox yng Nghymru a dyma ein cartref, gydag un cyrchfan wedi'i leoli yn Nyffryn Afan. Ein bwriad yw rhoi pobl, planed a phleser wrth galon y cyrchfan, gyda thechnoleg ac arloesi'n ein helpu i gyflenwi gwasanaethau i ymwelwyr fydd wedi'u personoli ac sy'n gynaliadwy.

Yn ogystal â'n tîm gweithredol, mae Cyrchfan Wildfox wedi bod yn adeiladu tîm rhagorol o ymgynghorwyr a chynghorwyr i'n galluogi i gyflenwi cyrchfan twristiaeth sy'n wirioneddol drawsnewidiol. Cofiwch gadw llygad am ein cyhoeddiadau.

Planning Update: Hear from our Director of Sustainability and Economic Development

"I am delighted to be working as part of Wildfox Resorts to create an adventure resort in Afan Valley and to deliver a new tourism asset for Wales. We have a great team who are working hard to shape a new concept that is exciting to future customers, inspires a local workforce, celebrates the natural environment and can be delivered, ensuring c benefits to communities and businesses

We have an outline planning permission secured as of 18 January 2022 and have a fantastic design team appointed to progress the next phase of work. Over the summer, we will be continuing with environmental enhancements and ground investigations to work towards our Reserved Matters submission."

Diweddariad Cynllunio: Clywch gan ein Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd a Datblygu Economaidd

"Pleser o'r mwyaf yw gallu gweithio fel rhan o Gyrchfan Wildfox i greu cyrchfan antur yn Nyffryn Afan a darparu ased dwristiaeth newydd i Gymru. Mae gennym dîm rhagorol sy'n gweithio'n galed i roi ffurf ar gysyniad newydd, cyffrous ar gyfer cwsmeriaid y dyfodol, sy'n ysbrydoli gweithlu lleol, sy'n dathlu'r amgylchedd naturiol ac a fydd yn digwydd, gan sicrhau llu o fanteision i gymunedau a busnesau.

Rydyn ni wedi llwyddo i sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol ers 18 Ionawr 2022, ac rydym wedi penodi tîm cynllunio gwych i symud i'r cam nesaf o waith. Dros yr haf, byddwn ni'n parhau i wneud gwelliannau amgylcheddol a gwaith tir ymchwiliol er mwyn gweithio i gyflawni ein cyflwyniad Materion a Gedwir yn Ôl."

Our progress on site

We have a site compound in place, run by a team of technical experts who are leading the pre-construction ground investigation works. For the protection of our staff and local residents, we put health and safety at the forefront of our minds when we're out on site.

Since work on site began, we have:

- maintained our zero-accident rate record;
- introduced a fire watchperson to mitigate the risk of wildfires and arson, helping us to safeguard the environment and local communities;
- planned further investigations to identify mine shafts and vents across site; and
- installed new signage and fencing to help ensure public access remains on footpaths and is directed away from the works area, helping to keep local people safe.

Our ground investigation works are well underway. As part of this, the team have assessed ground conditions within an area of woodland and have safeguarded the future of trees in the area by carrying out an arboricultural survey and will be introducing fire breaks to try and prevent further damage.

Ein cynnydd ar y safle

Mae gennym wersyll safle yn ei le, dan arweiniad tîm o arbenigwyr technegol sy'n arwain y gwaith ymchwilio tir cyn dechrau adeiladu, Er mwyn gwarchod ein staff a phreswylwyr lleol, rydyn ni wedi gosod iechyd a diogelwch ar flaen ein hystyriaethau pan fyddwn ni ar y safle.

Ers i'r gwaith ddechrau ar y safle, rydyn ni wedi:

- Cynnal ein record o ddim damweiniau;
- Cyflwyno gwyliwr tân i leihau perygl tanau gwyllt a thanau bwriadol, gan ein helpu i ddiogelu'r amgylchedd a chymunedau lleol;
- Cynllunio mwy o ymchwiliadau i adnabod tyllau pyllau glo a thwneli awyru ar draws y safle;
- Gosod arwyddion a ffensys newydd i helpu i sicrhau fod mynediad i'r cyhoedd yn parhau ar hyd llwybrau cerdded, a'i fod yn cael ei gyfeirio oddi wrth yr ardal waith, gan helpu i gadw pobl leol yn ddiogel.

Mae ein gwaith ymchwilio tir ar y gweill ers tro. Fel rhan o hyn, mae'r tîm wedi asesu amodau'r tir mewn ardal o goedwig, ac wedi diogelu dyfodol coed yn yr ardal drwy wneud arolwg goedyddiaeth, a byddant yn cyflwyno strimynnau atal tân i geisio atal achosi mwy o niwed.

Our work in the environment

The Wildfox Resorts site in the Afan Valley is a challenging environment having been an area of coal mining and subject to considerable deforestation leaving physical scars and site constraints creating opportunities for landscape restoration and the renewal of nature as a wonderful setting for economic regeneration, creating new jobs for the future. We are planning to create 1000 permanent jobs when we open across many different roles.

The design of the resort will provide a number of opportunities for our team to provide off site environmental areas, as well as carefully restore and renew habitats on site, increase biodiversity, and ensure the long-term protection of species.

We have created :

- ecological enhancement measures, providing new habitats for reptiles on our adjacent site, sometimes referred to the 'solar farm' site. (Note: This consent has expired and we are not implementing this consent.)
- the two 200m long hibernation features, are made from predominately recycled aggregates, offering refuge to species during the winter months and protection from summer wildfires.

A dedicated team of ecologists remain on site to ensure no species are disturbed while pre-construction ground investigations are carried out. This function is called an 'ecological clerk of works'.

Moving forward, we'll be carrying out new ecological surveys to enhance our understanding of habitat types, species distribution, and population sizes, which will inform our design to ensure we can continue to create the conditions to enable nature to thrive in our resort and showcase the natural environment to our guests.

Ein gwaith yn yr amgylchedd

Mae safle Cyrchfan Wildfox yn Nyffryn Afan yn amgylchedd heriol, a arferai fod yn ardal cloddio am lo, ac a welodd lawer iawn o ddatgoedwigo, sydd wedi gadael creithiau ar y tir, ac sydd wedi cyfyngu ar y safle, ond sy'n creu cyfleoedd i adfer y dirwedd ac i adnewyddu byd natur fel lleoliad bendigedig ar gyfer adfywio economaidd, gan greu swyddi newydd ar gyfer y dyfodol. Ein nod yw creu 1000 o swyddi parhaol pan fyddwn ni'n agor, ar draws sawl math gwahanol o rôl.

Bydd cynllun y cyrchfan yn darparu sawl cyfle i'n tîm ddarparu ardaloedd amgylcheddol oddi ar y safle, yn ogystal ag i adfer ac adnewyddu cynefinoedd yn ofalus ar y safle, cynyddu bioamrywiaeth, a sicrhau fod rhywogaethau'n cael eu gwarchod yn y tymor hir.

Rydyn ni wedi creu:

- Mesurau gwella ecolegol, gan ddarparu cynefinoedd newydd i ymlusgiaid ar ein safle cyfagos, y cyfeirir ato weithiau fel safle'r 'fferm solar'. (Noder: mae'r caniatâd wedi dod i ben ac ni fyddwn ni'n gweithredu'r caniatâd hwn.)
- Y ddwy nodwedd gaeafgysgu 200m o hyd, a grëwyd yn bennaf o ddeunydd a ailgylchwyd, sy'n cynnig lloches i rywogaethau dros fisoedd y gaeaf a hafan rhag tanau gwyllt yn yr haf.

Mae tîm ymrwymedig o ecolegwyr yn parhau i fod ar y safle i sicrhau nad oes unrhyw rywogaeth yn cael eu tarfu wrth i'r gwaith ymchwilio tir cyn adeiladu'n digwydd. Enw'r swyddogaeth yma yw 'clerc gwaith ecolegol'.

I'r dyfodol, byddwn ni'n cynnal arolygon ecolegol newydd i wella ein dealltwriaeth o fathau o gynefinoedd, sut y dosberthir rhywogaethau, a meintiau poblogaeth, a fydd yn addysgu ein cynllun i sicrhau y gallwn barhau i greu'r amodau sy'n galluogi i natur ffynnu yn ein cyrchfan, ac i arddangos yr amgylchedd naturiol i'n gwesteion.

Timeline of next steps



Amserlen ein camau nesaf



Community Engagement

Our team has sought to use local business and people from the outset -whether consultancies based in Cardiff or Swansea, local accommodation, ground investigation or surveying teams. It isn't always possible but we will do our very best. We have enjoyed meeting new colleagues and businesses to work with us on the Wildfox journey!

We are looking in depth at the character of the site and the local area and will take inspiration into our design process to celebrate culture and heritage.

We have produced a 'Look Ahead' to share what is happening on site.

Our Key Documents page of our web site is continually updated with relevant content and we are working on translating the content into Welsh. Our new brand/ logo has been designed to be bi-lingual and our advisors understand our priority to champion Welsh products in delivery and operation of the resort.

Wildfox Resorts can now be followed across Twitter & LinkedIn as other means to stay up to date. Residents may have seen physical posters in their community spaces – we will ensure that these are kept up-to-date.

Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae ein tîm wedi ceisio defnyddio busnesau a phobl leol o'r dechrau'n deg – boed hynny ar ffurf ymgynghorwyr a leolir yng Nghaerdydd neu Abertawe, llety lleol, timau ymchwil tir neu syrfewyr. Dyw hyn ddim yn bosib bob amser, ond rydyn ni'n addo gwneud ein gorau glas. Rydyn ni wedi mwynhau cwrdd â chydweithwyr a busnesau newydd i weithio gyda ni ar daith Wildfox!

Rydyn ni'n edrych yn fanwl ar natur y safle a'r ardal leol a byddwn ni'n mynd â'r hyn a'n hysbrydolodd ymlaen i'r cam cynllunio er mwyn dathlu diwylliant a threftadaeth.

Rydyn ni wedi cynhyrchu 'Cipolwg Ymlaen' i rannu beth sy'n digwydd ar y safle.

Mae tudalen Dogfennau Allweddol ein gwefan yn cael ei diweddaru'n barhaus gyda chynnwys perthnasol, ac rydyn ni'n gweithio ar gael cyfieithu'r cynnwys i'r Gymraeg. Cynlluniwyd ein brand / logo newydd i fod yn ddwyieithog ac mae ein hymgynghorwyr yn deall ein blaenoriaeth i hyrwyddo cynnyrch o Gymru wrth gyflenwi a gweithredu'r gyrchfan.

Gellir dilyn Cyrchfan Wildfox bellach ar draws Twitter a LinkedIn fel ffyrdd eraill o gael eich diweddaru. Efallai fod preswylwyr wedi gweld posteri yn eu hardaloedd cymunedol – byddwn ni'n sicrhau fod y rhain yn cael eu diweddaru'n gyson.

If you think this and future Wildfox newsletters will be relevant to those you know, please share this newsletter with them and encourage them to subscribe via the form below or our website.

Os ydych chi'n credu y bydd y cylchlythyr hwn gan Wildfox, a rhai i'r dyfodol, yn berthnasol i bobl rydych chi'n eu hadnabod, rhannwch y cylchlythyr gyda nhw ar bob cyfri, a'u hannog i danysgrifio gan ddefnyddio'r ffurflen isod neu ar ein gwefan.